CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
COFNODION CYFARFOD MISOL 29ain O HYDREF 2009 AM 7.00PM
NEUADD YR EGLWYS - LLANBEDR PONT STEFFAN

CYFLWYNIAD: Cyngor ar Bopeth: Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y sefydliad Cyngor ar Bopeth. Nid oedd rheolwraig CAB, sef Sue Hurds, yn medru ymgymryd â'r cyflwyniad fel y trefnwyd, gan ei bod wedi dioddef profedigaeth yn ei theulu. Gobeithiwn ail-drefnu'r cyflwyniad ar gyfer y mis nesaf.

YN BRESENNOL
Cyng Maer Selwyn Walters (Cadeirydd)
Cyng. Robert Phillips (Is-Gadeirydd)
Cyng. Cecilia Barton; Andrew Carter
Elsie Dafis, John Davies
Lynda Mason-George
Margaret Davies-Evans
Kistiah Ramaya & Derek Wilson
Cyng. Tref a Sirol Robert (Hag) Harris
Arolygydd yr Heddlu Paul Bonning
Swyddog yr Heddlu Richard Marshall
Mr Nathan Yates – Gohebydd y Wasg y Cambrian News
Mr Carl Stringer – Gohebydd y Wasg yn gweithio ar liwt ei hun

1. CROESO'R CADEIRYDD
Croesawodd y Maer Selwyn Walters bawb i'r Cyfarfod.
Boed i'r Gyng. Margaret Davies-Evans arwain aelodau mewn gweddi.

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Tref. Greg Evans, Chris Thomas, Dorothy Williams a'r Cynghorydd Sirol Ivor Williams.

Roedd aelodau'n flin i glywed am farwolaeth Elwyna, merch Mr & Mrs Noel a Hazel Davies. Bu Mr & Mrs Davies yn Feiri Llanbedr Pont-Steffan yn eu tro. Hefyd am farwolaeth Mr Stephen Eautough**.** Penderfynwyd anfon neges o gydymdeimlad dwysaf y Cyngor Tref i'r ddau deulu.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL
3.1 Cyng. Rob Phillips pan yn trafod y cais am gymorth ariannol ar gyfer y Ford Gron parthed yr Arddangosfa Tân Gwyllt 2009.
3.2 Cyng. Hag Harris pan yn trafod y cais am gymorth ariannol oddi wrth y Siambr Fasnach.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU
Ymysg y materion a drafodwyd oedd y canlynol:

4.1 Y mae'r Tŷ Tafarn y Quarry, Llanbedr Pont-Steffan wedi gwneud cais am estyniad ar gyfer oriau agored hyd 4am. Mae'r heddlu'n poeni am hwyredd yr oriau a dyfodiad yr economi gydol-nos gyda meddwdod yn peri'n broblem i drigolion Heol-y-Gogledd. Adroddwydd y byddai'r cais yn derbyn ystyriaeth gan yr Adran Drwyddedu'r Cyngor Sir yn ystod yr wythnos canlynol. Ar hyn o bryd gall dai-tafarn yn Llambed geisio am drwydded arbennig os dymunant estyniad ar gyfer achlysuron penodedig.

4.2 Ardal Gwahardd Alcohol Arfaethedig(AGAA) ar gyfer Llambed
Y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi derbyn cais ar y cyd rhwng Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a Heddlu Dyfed-Powys i gyflwyno Gorchymyn Gwahardd Yfed Alcohol Mewn Mannau Cyhoeddus Dynodedig (Llanbedr Pont Steffan) 2009 o dan Adran 13 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001.
Boed i'r cyfnod ymgynghori yn Llambed ddirwyn i ben ar y 30ain o Fedi 2009. Mae'r CSC yn asesu'r ymatebion ar hyn o bryd ac yn ysgrifennu adroddiad i'w hystyried yn deillio o'r ymatebion.

4.3 Adroddodd y Maer at sylw'r heddlu bod yr arwydd yn datgan *Dim Cŵn, Dim Sbwriel, Dim Mynediad heb Ganiatâd* wedi cael ei symud o'i le gan aelodau'r cyhoedd ar 2 achlysur. Gwnaed trefniadau ar gyfer gosod yr arwydd mewn lle am y 3ydd tro, y tro hwn ar y ffens, yn hytrach nag ar y polyn ar-ei-draed-ei-hun. Bydd yr heddlu yn cael eu hysbysu o'r weithred a hoffai aelodau y cadwant lygad barcud ar y cae, o hynny allan. Cytunwyd na ddylid caniatâu cŵn ar y cae, ar unrhyw amod. Adroddwyd nad oedd pobl yn glynu wrth y rheol a'u bod yn cerdded eu cŵn ar y cae yn rheolaidd. Dylai'r broblem leihau pan fydd yr arwydd mewn lle. Adroddodd y Cyng Chris Thomas ei fod wedi derbyn arwyddion gwahardd cŵn dan law'r heddlu i'w harddangos yn ystod y dyfodol agos.

4.4 Y mae Ymgynghoriad Distewi Traffig ar gyfer Mountwalk yn mynd yn ei flaen gan GSC. Derbyniwyd 2 gynllun, gan y CT, y ddau'n cynnwys crymachau brigau -crwn fel nodweddion distewi-traffig. Ffefrid Opsiwn 1. Adroddodd yr Heddlu y byddant yn ymholi petai'n bosibl i byst gael eu lleoli naill ochr i bob un o'r crymachau brigau-crwn.

5. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 24AIN O FEDI
Derbyniwyd cofnodion mis Medi fel rhai cywir

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 Hysbysfwrdd sydd wedi ei fandaleiddio ger llyfrgell y dref: y mae trefniadau ar y gweill gan Mr Kevin Jones, Garej Forge, Cwmann i drwsio'r hysbysfwrdd am swm o £549.

6.2 Biniau Ail-gylchu ar gyfer y dref:– y mae'r ddau fin wedi eu harchebu gan Rachel Mills, Cydlynydd Trefi Taclus – un i'w leoli ar Stryd y Farchnad a'r llall ym Mharc-yr-Orsedd. Bydd y Cyngor Tref yn cwrdd â'r gost o un bin a'r *Cynllun Trefi Taclus* yn talu am y llall.

6.3 Parc-yr-Orsedd: y mae 5 o feinciau newydd wedi eu gosod mewn lle ym Mharc-yr-orsedd (wedi eu gwneud o metel/pren) wedi eu talu dan Gynllun Trefi Taclus CSC. Bydd y 3 fainc sy'n weddill o Barc-yr-orsedd yn cael eu hadleoli i Gae Maesyderi.

6.4 2 Arwydd stryd -Parc St. Germain-sur-Moine: derbyniwyd yr arwyddion a archebwyd. Penderfynwyd gofyn i GSC tybed a fyddai'n bosibl iddynt arddangos yr arwyddion yn y parc ar ran y Cyngor Tref.

6.5 Clos Glyndŵr: Bydd yr arwydd yn datgan y geiriau *Clos Glyndŵr* yn cael ei brynu gan y Cyngor Sir a'i osod ar eiddo Mr Simon Anderson. Y mae angen caniatâd o leiaf 3 o'r 5 deiliaid cyn medru bwrw ymlaen â'r cais. Bu i'r Clerc adrodd ei bod wedi anfon llythyr at y 4 deiliaid (Y mae Mr Anderson wedi cytuno eisoes) ac amlen hunan-gyfeiriad â stamp, ar ddechrau mis Hydref. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb. Cytunodd y Cyng. Phillips i atgofio'r deiliaid.

6.6 Shelter Cymru: Y mae angen cyflwyno adborth i'r cyflwyniad a dderbyniwyd gan Michelle Prosser, *Shelter Cymru* yn ystod cyfarfod Mis Mai'r Cyngor Tref ynglŷn â'r gwasanaeth a hefyd ymateb ar ba mor ddefnyddiol yw'r pecyn *Gwerth Gwybodaeth i Gymunedau Gwledig* ym marn cynghorwyr.

Cytunwyd i ymateb yn unigol ar-lein gan lenwi'r holiadur a anfonwyd gan Shelter Cymru. Gellir derbyn copi caled o'r holidur drwy gysylltu â'r Clerc.

6.7 Problemau Trafnidiaeth Llambed

6.7.1 Maes Parcio'r Rookery

Adroddodd y Cyng. Harris y byddai'r Cyngor Sir yn ymgymryd â newidiadau i'r fynedfa er mwyn sicrhau digon o le ar gyfer bysiau a loriau trwm hir a llwythog. *Nid yw'r trefniant hwn wedi ei gadarnhau'n ysgrifenedig gan GSC*.

6.7.2 Maes Parcio'r Cwmin

Mae'r CT wedi mynegi ei gefnogaeth i gais y CSC i gyflwyno mesuriadau yn ymwneud â pharcio ar y Cwmin, os gellir gorestyn obligiadau cyfreithiol h.y. parcio am gyfnod cyfyngedig ar gyfer holl gerbydau heb godi tâl. ***Yn disgwyl ateb oddi wrthynt.***
Cais am linell felen o flaen Rhes Harford. Cysylltwyd â'r Cyngor Sir. ***Yn disgwyl ateb oddi wrthynt.***

6.7.3 Arolwg Traffig Llawn

"Byddai arolwg traffig llawn yn golygu'r defnydd o adnoddau helaeth ac nid yw'n bosibl i'r Awdurdod i gefnogi'r cais ar hyn o bryd." oedd yr ateb a dderbyniwyd gan y cyngor sir yn yr haf 2009. Cyflwynwyd ail gais at y Cyngor Sir: ***Yn disgwyl ateb gan y CSC parthed yr ail gais.***

6.7.4 Cais oddi wrth un o drigolion Heol y Gogledd, Llambed i osod croesfan ar gyfer cerddwyr ar Heol y Gogledd oherwydd rhesymau diogelwch. Cytunwyd i drosglwyddo'r llythyr at sylw'r Cyngor Sir yn mynegi bod y CT yn hollol gefnogol i unrhyw fesuriadau sydd o gymorth i hybu diogelwch cerddwyr ar Stryd y Gogledd. Gofynnwyd tybed a fyddai'n bosibl i leoli croesfan ar gyfer troedwyr ar yr heol. Y mae pob lleoliad a nodir yn cael ei flaenoriaethu drwy edrych ar hanes gwrthdrawiadau yn y lleoliad dan sylw ac ar anafiadau personol a achosir gan y gwrthdrawiadau hynny. Bydd yr wybodaeth honno wedi ei seilio ar wybodaeth ffurfiol a ddaw oddi wrth Heddlu Dyfed-Powys. Hefyd, fel rhan o'r broses hon, fe ystyrir y lleoliad, geometreg y ffordd, y llif traffig, ymddygiad defnyddwyr y ffordd a phresenoldeb cerddwyr a seiclwyr sy'n fwy agored i niwed. Gall y broses a ddefnyddir i asesu ceisiadau am rai mathau o fesurau rheoli traffig fod yn hir a chymhleth. Bydd yr asesiad yn ystyried beth yw arwyddocâd y broblem mewn lleoliad penodol ac yn nodi'r camau cywiro priodol. Hefyd, bydd angen sicrhau'r arian a'r awdurdod angenrheidiol i wneud y gwaith. O bryd i'w gilydd, gall yr hyn sy'n ymddangos fel cynigion call a theilwng ar yr olwg gyntaf syrthio'n fyr o feini prawf yr asesiad. O ganlyniad gall yr amser a gymerir i ymateb i'r cais fod yn eithaf hir. (ateb gan GSC Medi 2009)
Roedd aelodau'n parhau i fod rhwng dau feddwl ynglŷn â diogelwch cerddwyr ar Heol y Gogledd a phenderfynwyd gwneud cais arall am asesiad o'r ardal gyda'r bwriad o osod croesfan ar gyfer cerddwyr mewn lle neu o leiaf i gyflwyno ryw fath o fesur rheoli traffig ar Heol y Gogledd. ***Yn disgwyl clywed oddi wrth y CSC ynglŷn â'r ail gais.***

6.7.5 Parcio Heol-y-Bryn: mae problemau'n bodoli yng nghyffiniau Heol Y Bryn ac yn enwedig gyferbyn y cyffordd Heol Cambrian/Heol y Bryn. Pederfynwyd gofyn i'r cyngor sir tybed a fyddai'n bosibl i leoli llinellau melyn yn yr ardal hon i ganiatau cerbydau i droi ac i symud. *Cytunwyd i godi'r materion traffig yng nghyfarfod ymgynghorol â'r Cyngor Sir ar y 16eg o Dachwedd.*

6.8 Arwydd Tref Newydd ar gyfer Ffîn Sir Gâr: Yn disgwyl datblygiadau pellach gan GSC. Derbyniwyd anfoneb gan y CSC am y 4 arwydd. Penderfynwyd i ohirio'r daliad nes bod y gwaith wedi ei gwblhau.

6.9 **Dwy flynedd yn ôl boed i'r** Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno dogfen ymgynghorol sef *Cymuned ar y Cyd:* Meithrin cydberthynas a siarteri ar gyfer awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref a oedd yn argymmell bod cytundebau siarter yn cael eu gosod mewn lle rhwng awdurdodau unedol a chynghorau Cymuned a Thref. Y mae Cyngor Tref Aberystwyth wedi penderfynu mabwysiadu'r fath siarter. Y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i'w drafod yn San Steffan. Os caiff y gorchymyn ei dderbyn bydd yn anghenrheidiol i weithredu'r siarter ymhob sir yng Nghymru. Nid yw'n fwriad i ychwanegu haen fiwrocrataidd arall i lywodraeth leol ond i gynhyrchu dogfen a fydd yn hybu'r bartneriaeth rhwng yr awdurdod leol a chynghorau tref a chymuned. Holodd Clerc y Dref Aberystwyth sef Mr Jim Griffiths, farn y CT ynglŷn â'r mater. Penderfynwyd hysbysu Mr Griffiths bod y CT yn hollol gefnogol i'r cytundeb siarter gael ei osod mewn lle.

6.10 **Y mae trefniadau wedi eu gwneud** gan GSC i gynnal cyfarfod ymgynghorol â Chyngor Tref Llambed ar Nos Lun 16 Tachwedd yn Neuadd Fictoria, Llambed.

6.11 **Cinio ar gyfer yr Anghenus**: Neuadd yr Eglwys San Pedr: Dydd Gwener 2ail Hydref: Bu'r achlysur yn lwyddiant. Codwyd £200 ar gyfer targed flynyddol o £1,000 yr Eglwys San Pedr ar gyfer Tlodi Byd-Eang. Penderfynwyd diolch i'r Gyng. Dorothy Williams am ysgwyddo'r gyfrifoldeb o'r trefniadau arlwyo ac i wirfoddoli gwasanaethau'r CT dwy waith y flwyddyn ar gyfer cydlynu'r digwyddiad.

6.12 **Ymweliad â'r Ysgol Uwchradd**: Bu i Mr Wynne, Prifathro'r Ysgol Uwchradd dywys rhai aelodau'r Cyngor Tref o gwmpas yr ysgol, gan gynnwys y bloc newydd ar y 28ain o Fedi.

6.13 **Y mae sglodion pren** sydd wedi eu lleoli o gwmpas planhigion ar faes parcio Sainsbury yn dal i orlifio oddi ar eu gwelyau penodedig – i adrodd at sylw'r Cyngor Sir.

6.14 **CBC: Un Llais Cymru:** Pafiliwn y Bont 10/10/2009: Boed i'r Cyng Phillips a'r Gyng. D.Williams gynrychioli'r Cyngor Tref yn y gynhadledd hon. Thema'r gynhadledd oedd *Datblygu eich Cymuned* a oedd yn canolbwyntio ar sut all cynghorau wella'r cymunedau mae nhw'n eu gwasanaethu.

6.15 **Y Lleng Prydeinig:** Gwasanaeth Dydd Sul y Cofio 8.11.2009: atgofiwyd aelodau o'r gwasanaeth a hefyd i gadw munud o osteg ar Sgwâr y Dref am 11am ar yr 11.11.2009. Archebwyd 200 o daflenni yn ymwneud â threfn y gwasanaeth. Bydd y Maer Selwyn Walters a'r Faeres yn gosod y blethdorch ar ran y Cyngor Tref er mwyn dwyn i gof y rai hynny a'u lladdwydd yn y ddwy Rhyfel Fawr y ganrif olaf ac mewn brwydrau terfysgol ers hynny.

6.16 **Cyfarchion Dinesig**: Bu i'r Maer drosglwyddo tarian a llythyr yn cyfleu cyfarchion dinesig i Mrs Morfudd Slaymaker. Bydd yn cyflwyno'r darian a'r llythyr, ar ran Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan, i'w pherthynas Maer y Gaiman yn ystod ei hymweliad newydd ddigwydd â Phatagonia.

6.17 **Cais y Cyngor Tref** i gynnal cyfarfodydd mewn ysgol leol, yn rhad ac am ddim**:** *yn dal i ddisgwyl ateb gan GSC*. Yn llyfr Charles Arnold-Baker Llyfr Gweinyddiaeth Awdurdodau Lleol 8fed Argraffiad y mae wedi ei hysgrifennu ym Mhennod 7 B7.2 ." Os yw'r cyngor yn berchen ar ystafell addas yn y cyffiniau, y gellid ei defnyddio'n rhad ac am ddim, rhaid cynnal y cyfarfodydd yn y lle hwnnw; os nad yw'n berchen ar le, yn ystod amserau rhesymol ac ar ôl rhybudd rhesymol, gall y cyngor ddefnyddio, yn rhad ac am ddim, ystafell mewn unrhyw ysgol sy'n cael ei chynnal gan yr awdurdod lleol neu unrhyw ystafell am dâl, ond ni chaniateir ystafell mewn tŷ tafarn ac ni ellir cynnal cyfarfod mewn ystafell os bydd yn amharu ar ddefnydd ar gyfer addysg, cyfiawnder neu'r heddlu". LGA 1972 s134 (1)-(3)

7. GOHEBIAETH

7.1 **Cau Ffordd Dros-dro oherwydd Digwyddiad Arbennig –** Ffair Nadolig Stryd Fawr, Llambed 10/12/2009 – 3-9pm: er gwybodaeth.

7.2 **Pwyllgor Ardal Ceredigion,** Un Llais Cymru: 8.10.2009: Bydd yr agenda'n cynnwys Cyflwyniad gan Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda ar Bronglais "Front of House"; Cynllun Datblygu Lleol – Grŵp Budd-ddeiliaid a'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Anfonir y cofnodion maes o law at y Cyngor Tref.

7.3 **Cynllun Grant Toiledau Cymunedol**: CSC: mae CSC ar hyn o bryd yn paratoi ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru Cynllun Grant Toiledau Cymunedol. Bydd Ceredigion yn derbyn grant blynyddol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i dalu busnesau hyd at £500 i gymryd rhan yn y cynllun. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y grant bydd yn rhaid i'r busnes feddu ar o leiaf un toiled i'r ddau ryw y gellir cael mynediad llawn iddo gan gadair olwyn a chyfleusterau rhiant a phlentyn ar y safle: er gwybodaeth.

7.4 **Clwb Ieuenctid Llanbedr PS**: gwahoddiad i bawb i noson ffilm yng Nghanolfan Steffan ar y 4/11/2009 i ddathlu Wythnos Gwaith Ieuenctid.

7.5 **Siarter Tosturiol Cymorth Anifeiliaid: 8 cam gweithredol** i helpu anifeiliaid, pobl a'r planed: y mae Cymorth i Anifeiliaid (Animal Aid) yn datguddio ac yn ymgyrchu'n heddychlon yn erbyn pob math o gamdriniaeth i anifeiliaid ac yn hybu ffordd o fyw heb-greulondeb. Cytunodd aelodau i ddarllen y ddogfen cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â mabwysiadu'r siarter.

7.6 **Llythyr gan yr Adran Dechnoleg Gwybodaeth CSC** yn cyfleu y byddant yn dileu'r ddarparieth ebost ar gyfer y cyngor tref ar y 31ain Hydref 2009. Nid yw mudiadau allanol heb sicrwydd ynglŷn â'u diogelwch yn cael eu caniatau ar rwydwaith corfforedig yr Awdurdod. Adroddwyd bod y Cyng Phillips wedi gosod i fyny cyfeiriad ebost newydd ar gyfer y cyngor tref sef clerc@lampeter-tc.gov.uk. Bydd y cyfeiriad newydd yn cymryd lle'r hen gyfeiriad.

7.7 **Cantref: Adroddiad Blynyddol 2008-09:** nodwyd er gwybodaeth.

7.8 **Canolfan Cwiltiau Cymreig Jen Jones**: Lawnsiad – Nos Wener 30ain Hydref am 6.30pm – gwahoddiad i bawb o'r Cyngor Tref.

7.9 **Gohebiaeth Eraill:** er gwybodaeth yn unig.

8. MENTER LLAMBED

8.1 **Gwefan y Cyngor Tref**
Mae'r cynnig wedi ei wobrwyo i GWNDESIGN: Pant-y-Nos; Llanfair Clydogau; Llambed; SA48 8LU £770 (heb TAW). Dylai'r safle ar y we newydd fod mewn lle mewn 3 wythnos. Bydd y gwefan presennol sef www.lampeter.org yn cael ei diddymu ar ôl hynny. Diolchwyd i'r Cyng. Phillips am gydlynu'r dasg.

8.2 **Y mae llythyr o gefnogaeth** wedi ei hanfon i'r Goedwigaeth Cymunedol Longwood ar gyfer ei gais am gymhorthdal gan Amgylchedd Cymru (Environment Wales) . Os yn llwyddiannus bydd y grant yn caniatau'r Ymddiriedolwyr i gyflogi gofalwr am 20awr yr wythnos.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO

9.1 **Mae'r ceisiadau canlynol wedi eu caniatau gan Gyngor Sir Ceredigion**

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	Ymgeisydd a'r bwriad	Lleoliad
1/10/2009	Food Programme Delivery	Heol y Bont

Rhif y Cais: A090586av	Orchid Co-operative Cyf *Arddangos arwyddion*	Llambed.
26/09/2009 Rhif y Cais: A090566	Mr & Mrs C Jones Coed y Glyn Ffordd Glynhebog Llambed *Amrywio amod rhif 4 (caniatâd cynllunio A080295)* *Adolygiad Priffyrdd*	Tir gyferbyn Coed y Glyn Ffordd Glynhebog Llambed
2/10/2009 Rhif y Cais: A090400LB	Mr & Mrs D Sables Y Felin Heol y Felin Llambed Newidiadau i drosi adeilad lean-to i ystafell wely	Y Felin Stryd y Felin Llambed Caniatâd Adeilad Rhestredig yn unol ag amodau.

9.2 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dyddiad yr hysbyswyd gan GSC	**Ymgeisydd/ Safle /Bwriad**	**Sylwadau'r Cyngor Tref**
24/10/2009 Rhif y Cais: A090727	Western Power Distribution Llinell dros-ben Llambed i Dregaron	Dim gwrthwynebiad
Rheol 14 diwrnod – dirprwyo swyddogaethau i aelodau penodedig 10/10/2009	Deiliaid Genau'r Glyn Llambed Estyniad i'r Adeilad Genau'r Glyn Llambed	Dim gwrthwynebiad

9.3 Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Cofnodion 9.09.2009 a'r Agenda y cyfarfod 14.10.09: er gwybodaeth.

9.4 Rheol 14 diwrnod ar gyfer dychwelyd Ceisiadau Cynllunio i GSC. Penderfynwyd ymateb i wahoddiad y CSC i dderbyn ac i gyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio'n electronig. Mae canllawiau ar sut i weithredu'r cynllun wedi eu hanfon gan GSC. Does dim ceisiadau wedi eu trosglwyddo cyn belled.

9.5 Y Cais A080680: Codi estyniad a dymchwel rhan o annedd: Eryl, 61 Stryd Y Bont, Llambed. Bydd Panel Archwilio Safleoedd CSC yn cwrdd ar y safle i drafod y cais ar 2.11.2009 am 2pm. Estynwyd gwahoddiad i'r Cyngor Tref i anfon cynrychiolydd i fod yn bresennol yn yr archwiliad fel sylwebydd. Bydd y Maer yn cynrychioli'r Cyngor Tref.

10. CYLLID

10.1 Derbyniwyd neges o ddiolch oddi wrth Mr Phillip Lodwick, Cymdeithas Cerddwyr Llambed am y cyfraniad o £350. Hefyd o Ambiwlans Awyr Cymru am y rhodd o £50. (Prynwyd tocynnau raffl gwerth £10 gan aelodau yn ystod y cyfarfod ar gyfer yr Elusen Ambiwlans Awyr Cymru)

10.2 Penderfynwyd peidio â chyfrannu at y Sefydliad Prydeinig Y Galon Cymru: y mae prif elusen Prydain ym maes y galon, yn achub bywydau bob dydd drwy fuddsoddi mewn gwaith ymchwil arloesol, cefnogi a gofalu am gleifion y galon

a'u teuluoedd, ymgyrchu dros newid a chynnig gwybodaeth bwysig i helpu pawb ohonom i ofalu am ein calonnau.

10.3 Cais am gymorth ariannol gan y Ford Gron Llambed ar gyfer yr Arddangosfa Tân Gwyllt 2009. Adroddwyd yn gamarweiniol yn ystod y cyfarfod olaf bod £400 wedi ei gyfrannu'r llynedd a chytunwyd i gyfrannu'r un faint eleni. £200 oedd y swm a gyfrannwyd mewn gwirionedd. Yng ngoleuni'r ffeithiau newydd penderfynwyd y byddai'n ddoeth yn nhŷb y Cdeirydd i ail edrych ar y cais. Cytunwyd i beidio â newid y penderfyniad cynt o'r rhodd o £400.

10.4 Cyfraniad £50 ar gyfer yr elusen Cymorth i Ddioddefwyr Cymru Bydd £50 yn darparu cymorth emosiynol ar gyfer 3 dioddefwr.

10.5 Siambr Fasnach Llambed: yn gofyn am gyfraniad ar gyfer treuliau y Ffair Nadolig o'r 10fed Rhagfyr. Byddai'n cael ei gyfleu bod y Cyngor Tref yn ôl yr arfer yn talu am gynnal y goleuadau Nadolig a'i fod yn barod i barhau â'r trefniant, er bod y CSC wedi dileu'r cymhorthdal eleni. i geisio eglurhâd parthed y cais.

10.6 Cyflog y Clerc (Hydref) £536.70

10.7 Golau/Gwres/Storio Dogfennau: £20.00

10.8 Treth Incwm a Chyfraniadau YC: £64.20

10.9 Argraffu taflenni: Cae Maesyderi d/l Elizabeth James £36.00

10.10 Plethdorch d/l Cyng. John Davies £16.50

10.11 Y mae £20,000 o arian y CT wedi ei fuddsoddi mewn cyfrif 9 mis gan y Banc Barclays sy'n cynnig graddfa llog o 2% y flwyddyn. Disgwylir llog o £300 ar ddiwedd y cyfnod buddsoddiad.

10.12 £487.50 llog wedi ei dderbyn gan GSC – Cynllun Llwybrau Cymunedol 2009 (75% o gymhorthdal)

10.13 £650 wedi ei dalu i Mr E Williams – cynnal a chadw llwybrau cerdded dros fisoedd yr haf.

10.14 Cysylltiad Band Lydan y CT – 3 mis -13 Medi £120.58 (gan gynnwys TAW)

10.15 Hurio Neuadd San Pedr: 24.09.2009: £22.50

10.16 Cyng. D.Williams: costau bwyd cinio ar gyfer yr anghenus 2.10.2009: £55

10.17 Cofrestru Lampeter-tc.gov.uk am 2 flynedd: HCI Data CYF £100: TAW £15

10.18 CWN Design: rhan-daliad £387.50; TAW £58.13

10.19 2 Arwydd Parc St. Germain-sur-Moine £220 TAW £35.40

10.20 Torri gwair yng nghae Maesyderi, Mr Mike Brown, Caerfoel Cribyn- £800

10.21 Arwydd Parc-yr-Orsedd £80.00; TAW £12

10.22 Tlysydd Lloyds: Plac: Maer y Gaiman £17.50

10.23 Penderfynwyd gadael y penderfyniad ynglŷn â'r opsiynau sydd yn agored i'r CT yn ymwneud â gwario'r Cymynrodd, ar y bwrdd, am y trydydd tro, tan y cyfarfod nesaf. Dymunai aelodau amser i ystyried awgrymiadau cyn trafod yn y cyfarfod.

10.24 Asesiad Risg yn ystod y flwyddyn 2009-10: mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.

10.25 Alliance & Leicester: Llog gross o 9 Ebrill – 8 Hydref £5.15

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 LLWYBRAU CERDDED GAN GYNNWYS PARC-YR-ORSEDD

11.1.1 Parc-yr-orsedd: Derbyniwyd llythyr gan Cally Mason-George yn cynnwys deiseb o 100 o enwau o aelodau'r cyhoedd yn ceisio gwelliannau ar gyfer Parc-yr-Orsedd er mwyn sicrhau diogelwch plant bach yn y parc. Hefyd cais am gynnydd mewn offer chwarae yn y parc (Medi 2009) . Derbyniwyd ymateb gan y Cyng. Chris Thomas (ynghlwm). Gan fod y Cyng. Thomas yn absennol penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd tan y cyfarfod nesaf.

11.1.2 Y mae arwydd tebyg i'r un sydd wedi ei arddangos yn barod ar brif fynedfa'r parc, i'w osod ger mynedfa Heol y Gogledd wedi ei harchebu.

11.2 CAMERAU TCC

11.2.1 Adroddiad Misol ar gyfer Medi 2009 CSC: bu yna 2 gais gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd digidol yn ymwneud â pherson aeth ar goll a gwrthdrawiad traffig-ar-yr-heol. Doedd dim llun ar gael ar 3 o'r 6 camerau Llambed o'r 3/09 tan y 19/09/09.

11.2.2Roedd y Cyng. Ian Stoker, Cynghorydd Tref Aberystwyth yn pryderu ynglŷn â'r amser a gymerwyd i drwsio'r camerau'n Llambed a phroblemau tebyg yn Aberystwyth. Holodd tybed a oedd gan y Cyngor Sir gytundeb mewn lle gyda'r gosodwyr camerau i drwsio'r camerau a beth oedd y cyfyngiad-amser ynglŷn â thrwsio'r offer. Yn yr ymateb gan GSC, sicrhawyd bod cytundeb mewn lle gan yr Awdurdod. Bu i'r ddau leoliad dderbyn sylw'n gyflym iawn ac yn hawdd o fewn yr amser angenrheidiol. Yn Llambed, boed i beiriannwyr ddod o hyd i broblem yn ymwneud â'r ddolen radio a ddefnyddir yn y dref a rhoddwyd y sylw angenrheidiol i ddatrys y broblem.

11.3 GOLEUADAU STRYD

Mae problemau'n dal i fodoli ar y 9 oleuadau stryd sy'n ymestyn o'r Garej ATS i'r Ystâd Bryn Steffan. Adroddwyd y nam gan y CT ar ddechrau mis Hydref. Bu i'r broblem ei datrys am ychydig ond i ddychwelyd o fewn dyddiau. *Y Clerc i edrych mewn i'r mater.*

11.4 PWYLLGOR RHEOLI CAE MAESYDERI

Cynhaliwyd cyfarfod ar y 27ain o Hydref (Cofnodion ynghlwm)

11.5 PALMANTAU

11.5.1 Adroddwyd bod namau'n bodoli ar y man cerdded wrth gefn 12 Teras Peterwell – 2 manol sy'n berygl ar gyfer cerddwyr – *i adrodd at sylw'r cyngor sir.*

11.5.2 Adroddodd y Gyng. Margaret Davies-Evans yn ystod y cyfarfod diwethaf y CT bod angen chwynnu yng nghyffiniau'r Cwmins a'r ardal o gwmpas – adroddwyd at sylw'r cyngor sir. Ni sylwyd ar unrhyw welliannau, cyn belled. i adrodd y mater unwaith yn rhagor at GSC ac i adrodd ardaloedd eraill o fewn y dref sydd angen sylw.

12. U.F.A.

12.1 Nid oes gan y CT gartref parhaol ers gadael Neuadd y Dref ym mis Ionawr 2009. Gofynnodd y Gyng. Barton tybed a fyddai'n bosibl i wneud trefniadau i ymweld â'r hen adeilad rhestredig Swyddfa'r Post gyda'r bwriad o ystyried llogi'r llawr gwaelod fel lle i gyfarfod/cartref i aelodau, "gan fod angen Neuadd y Dref ar Gyngor Y Dref". Roedd y Cyng. Harris o'r farn bod y lle cyfarfod presennol yn Neuadd yr Eglwys yn ddigonol ar gyfer anghenion y CT. Penderfynwyd cysylltu â'r Asiant Ystadau i drafod ymhellach.

12.2 Adroddodd y Cyng. Carter bod arwyddion a leolwyd ar balmantau gan GSC pan yn ymwneud â gwelliannau i'r heol Stryd y Bont ger yr Archfarchnad y Co-op, yn ddiweddar, yn berygl ar gyfer cerddwyr ac yn enwedig i ddefnyddwyr cadair-olwyn a chadair-wthio. Bu i'r un broblem godi'n ardal Heol Y Gogledd yn ystod misoedd yr haf. Penderfynwyd adrodd y broblem at sylw'r CSC a gofyn iddynt glustnodi ystyriaeth a gofal ar gyfer cerddwyr pan fyddai gwaith yn cael ei ymgymryd yn ystod y dyfodol. Roedd aelodau'n falch i glywed bod yr arfer hwn wedi ei weithredu'n ystod y gwaith a gariwyd allan ar Heol Y Bryn, yn ddiweddar.

12.3 Cyhoeddodd y Maer Ginio'r Faeres a gynhelir ar y 12fed o Dachwedd yn Lynwood, Llambed am 7.30pm. Yn ystod y noson caiff trefniadau eu gwneud ar gyfer y parti blynyddol *Ieuanc mewn Ysbryd* dan ofalaeth y Cyngor Tref. Cynhelir y parti ar brynhawn Ddydd Mercher, yr 2ail Rhagfyr.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y Cyfarfod i ben am 10.00pm.

13. Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Nos lau 26ain o Dachwedd am 7.00pm yn Neuadd yr Eglwys Llambed

----------(Cadeirydd & Dyddiad)